# COD YMDDYGIAD I AELODAU A'R CYHOEDD

Mae croeso i bawb yn nigwyddiadau Cymdeithas yr Iaith, ac rydyn ni eisiau i bawb allu cyfrannu a mwynhau.

Mae hawl gan bawb i deimlo'n ddiogel yn ein digwyddiadau, a bydd disgwyl i bawb sy'n dod i ddigwyddiadau Cymdeithas yr Iaith barchu ei gilydd er mwyn sicrhau hynny.

Ni fyddwn yn goddef unrhyw gamdriniaeth neu wahaniaethu yn ein digwyddiadau, gan gynnwys hiliaeth, rhywiaeth, homoffobia, deuffobia, trawsffobia, neu wahaniaethu ar sail anabledd, crefydd neu ddosbarth cymdeithasol.

Disgwylir i bawb barchu ymreolaeth gorfforol ei gilydd ac ni fyddwn yn goddef unrhyw aflonyddu neu ymosodiadau rhywiol.

Byddwn yn cymryd unrhyw adroddiadau o gamdriniaeth, gwahaniaethu, aflonyddu neu drais o ddifri, a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu unigolion a pharchu ewyllys rheiny sydd wedi cael eu heffeithio. Gall hyn gynnwys gwahardd unigolion o’n digwyddiadau a chymryd camau gweithredu o dan y Polisi Urddas a Pharch.

Gall unrhyw un sy’n poeni am ymddygiad unigolyn mewn digwyddiad siarad â’n stiwardiaid neu ddilyn i fyny gyda Swyddog Diogelu Cymdeithas yr Iaith[1] ar ôl y digwyddiad.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ein gweithgareddau yn cynnig amgylchedd diogel, cynhwysol a hwyl i bawb.

*Senedd Cymdeithas yr Iaith*
*Diweddarwyd Ionawr 2024, Hydref 2024*

[1] Gweler https://cymdeithas.cymru/polisi-diogelu am enw'r Swyddog Diogelu cyfredol